



# CWTSH MYRDDIN

*Rhifyn – 22.05.2017*

## Llwyddiant Bro Myrddin yn Eisteddfod yr Urdd Pen y Bont ar Ogwr 2017



Bu'n Eisteddfod lwyddiannus i Ysgol Bro Myrddin eleni eto gyda dros ugain o eitemau yn teithio i Ben y Bont ar Ogwr yn ystod wythnos y Sulgwyn. Enillwyd tair gwobr gyntaf sef Elin Fflur Jones ac Alaw Evans ar y ddeuawd cerdd dant dan 19 oed, y Côr Cerdd Dant Hŷn a'r fîm siarad cyhoeddus. Ceris James oedd cadeirydd y fîm a'r siaradwyr oedd Heledd Jones, Mared Owen a Garmon Dyfri. Enillwyd siaradwr gorau y gystadleuaeth gan Garmon a'i wobwr arbennig yw taith i Frwsel i ymweld â Senedd Ewrop ac i gysgodi Tom Jones sy'n gynrychiolydd Cymru

a'r Deyrnas Unedig ar y Cyngor Economaidd a Chymdeithasol. Enillwyd yr ail wobwr gan y Grŵp Cerdd Dant hŷn, yr Ensemble Lleisiol a'r Parti Cerdd Dant hŷn.

Bu'r gogyddes Millie Hughes Butterfield yn llwyddiannus hefyd yn y gystadleuaeth Cogurdd dan 19 oed gan ennill yr ail wobwr. Roedd yn eisteddfod brysur iawn i Alaw Evans a ddaeth yn drydydd hefyd yn yr unawd telyn dan 19 mlwydd oed. 3ydd hefyd oedd Daniel O'Callaghan yn yr Unawd Chwythbrennau dan 19 oed. Yn y gystadleuaeth Celf a Chrefft enillwyd y 3ydd wobwr gan Ifan Gwynedd.

Rhaid diolch i'r holl gystadleuwyr, yr hyfforddwyr a'r trefnwyr am eu gwaith diflino. Edrychwn ymlaen at Eisteddfod Llanfair y Muallt y flwyddyn nesaf.



## Cystadleuaeth Tlws yr Ifanc

Llongyfarchiadau gwresog i Garmon Dyfri a ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Gadeiriol Rhydlewis yn ddiweddar gyda'i stori fer 'Y Sylwebydd'.



## Cystadleuaeth Cymorth Cristnogol

Cafwyd llwyddiant arbennig i rai o ddisgyblion blwyddyn 8 yng nghystadleuaeth genedlaethol Cymorth Cristnogol, sef creu cerdd ar y thema 'siocled Masnach Deg Divine.' Y beirniad oedd Bardd Plant Cymru, Anni Llŷn. Daeth Megan Bryer a Leusa Bowen yn ail yn y gystadleuaeth, ac fe ddaeth Betsan Campbell a Carina Sidhu yn drydydd. Byddant yn derbyn tystysgrifau a siocled Divine am eu llwyddiant. Llongyfarchiadau mawr iawn i chi'ch pedair.

## Cystadleuaeth Cwis Llyfrau Ysgolion Uwchradd Sir Gâr



Ar y 26<sup>a</sup> o Fai aeth criw o ddisgyblion blwyddyn 8 i Ganolfan Addysg Griffith Jones yn San Clêr ar gyfer cystadleuaeth Cwis Llyfrau Ysgolion Uwchradd Sir Gâr. Daeth un fîm yn drydydd yn y gystadleuaeth, sef Liam Edwards, Llew Richards, Betsan Campbell a Guilhem Lloyd. Roeddent yn trafod y nofel 'Y Bancsi Bach' gan Tudur Dylan Jones. Enillwyd bag llawn nwyddau hyfryd a defnyddiol ganddynt a thaleb llyfrau gwerth £20 ar gyfer yr ysgol. Llongyfarchiadau i chi!

## Ffarwelio

Ar ddiwedd blwyddyn academiaidd arall mae'r ysgol yn dymuno pob dymuniad da i Mrs Caroline Walton ar ei hymddeoliad ar ôl bod yn bennaeth yr Adran Anghenion Ychwanegol ers 1997.

Dymuniadau da i William Moore o flwyddyn 8 sy'n ein gadael ar ddiwedd y tymor ar ôl derbyn ysgoloriaeth chwaraeon i fynychu ysgol breswyl Wellington.